| YSGOL EIFIONYDD | YSGOL EIFIONYDD |
|---|---|
| **Bwletin \| Medi 2023** | ***Bulletin \| September 2023*** |
| Annwyl Riant / Warchodwr,<br>Bu'n bleser croesawu eich plant yn ôl i'r ysgol. Diolch am eich cefnogaeth wrth sicrhau eu bod nhw'n brydlon a gyda gwisg ac offer cywir. | *Dear Parent / Guardian,*<br>*It has been a pleasure to welcome your children back to school. Thank you for your support in ensuring they are punctual and with the correct uniform and equipment.* |
| **Cyswllt:** Rydym yn gwerthfawrogi'r cyswllt sydd rhyngom ni fel ysgol a chi fel rhieni. Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu eich cynorthwyo yn effeithiol dylid trefnu apwyntiad i ymweld â'r ysgol yn hytrach na throi i fyny yn ddirybudd.<br>Anogwn rieni i gysylltu â'r ysgol drwy e-bost:<br>Cyswllt Cyffredinol:<br>cyffredinol@eifionydd.ysgoliongwynedd.cymru | ***Contact:*** *We value the contact between us as a school and you as parents. In order to ensure that we are able to assist you effectively, any visit should be arranged with the school rather than turning up unannounced.*<br>*We encourage parents to contact the school by email:*<br>*General Contact:*<br>cyffredinol@eifionydd.ysgoliongwynedd.cymru |
| **Presenoldeb:** Mae presenoldeb uchel yn yr ysgol yn hanfodol i sicrhau addysg dda. Mae presenoldeb o tua 90% yn golygu bod eich plentyn yn absennol o wersi am yr hyn sy'n cyfateb a hanner diwrnod yr wythnos. Dros bum mlynedd mae hyn yn cyfateb i tua hanner blwyddyn ysgol! Mae 90% o bobl ifanc â chyfraddau presenoldeb islaw 85% yn methu â chyflawni pump neu fwy o raddau TGAU da ac nid yw tua thraean yn cyflawni unrhyw TGAU o gwbl. Yn gryno, mae presenoldeb da yn rhoi'r cyfleoedd gorau i'ch plentyn. | **Attendance:** *High attendance in school is essential for a good education. An attendance of around 90% means that your child is absent from lessons for the equivalent of half a day a week. Over five years this equates to around half a school year! 90% of young people with attendance rates below 85% fail to achieve five or more good GCSE grades and around a third achieve no GCSE at all. In short, good attendance gives your child the best opportunities.* |
| **Staff:**<br>Apwyntiwyd Mrs Sera Williams yn athrawes Bioleg a Gwyddoniaeth barhaol.<br>Hoffem ddymuno bob lwc i Mrs Llio Dudley Roberts, Mrs Elliw Haf Roberts a Mrs Catrin Elan Roberts ar eu cyfnodau mamolaeth. Yn ystod eu habsenoldeb hoffwn eich hysbysu taw:<br>▸ Mrs Lois Evans fydd yn darparu'r rhan fwyaf o'r gwersi Cerddoriaeth,<br>▸ Mrs Menna Bowen a Mrs Miriam Marchant fydd yn darparu'r rhan fwyaf o'r gwersi Ffrangeg,<br>▸ Miss Samantha Tipton fydd yn darparu'r gwersi Saesneg.<br>Rydym yn hynod o ffodus i allu sicrhau gwasanaeth athrawon cymwys iawn i addysgu'r pynciau.<br>Yn ogystal penodwyd Miss Grisial Williams yn Gymhorthydd a Mr Sïon Parry yn Uwch Gymhorthydd ADY. | ***Staff:***<br>*Mrs Sera Williams has been appointed as a permanent Biology and Science teacher.*<br>*We wish the best of luck to Mrs Llio Dudley Roberts, Mrs Elliw HafRoberts and Mrs Catrin Elan Roberts on their maternity leave. I would like to inform you that during theis absence:*<br>▸ *Mrs Lois Evans will provide most of the Music lessons,*<br>▸ *Mrs Menna Bowen and Mrs Miriam Marchant will provide most of the French lessons,*<br>▸ *Miss Samantha Tipton will provide the English lessons.*<br>*We are extremely fortunate to be able to secure the service of very qualified teachers to teach the subjects.*<br>*In addition, Mrs Grisial Williams has been appointed as a Classroom Assistant and Mr Sion Parry as a Senior ALN Assistant.* |

| | |
|---|---|
| **Gwaith Cartref:** Gosodir manylion gwaith cartref ar Google Classroom – Hwb eich plentyn. Manylion pellach i ddilyn. | ***Homework:*** *Homework details will be placed on HWB - Google Classroom. Further details to follow.* |
| **Gwybodaeth:** Yn naturiol hysbysir chi trwy e-bost neu neges destun o faterion o bwys. Fodd bynnag gellir hefyd dilyn nifer o weithgareddau'r Ysgol ar **Facebook** - **https://www.facebook.com/gwynebllyfrYE/** A gosodir nifer o bolisïau a dogfennau cyhoeddus yr Ysgol ar ein safle we - **http://ysgoleifionydd.org/** | ***Information:*** *Naturally you will be notified by email or text message of important issues. However, many of the School's activities can also be followed on* ***Facebook*** *-* ***https://www.facebook.com/gwynebllyfrYE/*** *A number of the School's policies and public documents are placed on our website -* ***http://ysgoleifionydd.org/*** |
| **Arian Cinio Ysgol:** Gofynnwn yn garedig i chi gadw golwg ar y cyfrif a sicrhau bod arian yng nghyfrif Schoolgateway eich plentyn. **Nid ydi disgyblion yn cael gadael ar ol iddynt gyrraedd yn y bore.** | ***School Dinner Money:*** *We kindly ask you to keep track of the account and ensure that there is money in your child's Schoolgateway account.* ***Pupils are not allowed to leave the premises after they have arrived in the morning.*** |
| **Gwaith ar yr Adeilad**: Mae llawer o waith moderneiddio ac adnewyddu yn digwydd yn yr ysgol.<br>▸ Rydym yn falch o'ch hysbysu fod y labordy Bioleg a'r Ystafell Gerdd wedi eu cwblhau i safon uchel.<br>▸ Gosodwyd bolardiau diogelwch er mwyn cynorthwyo rhannu'r disgyblion oddi wrth y bysiau ysgol.<br>▸ Y mae ystafelloedd newid y Gampfa hefyd yn agos at gael eu cwblhau, diolch i fuddsoddiad yr Awdurdod. Yn yr un modd y mae llawr newydd bron wedi ei gwblhau yn y Neuadd.<br>▸ Gwelwyd cynnydd da mewn gwella ansawdd y to, waliau a soffitiau'r Ysgol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddŵr yn dod i mewn i'r adeilad.<br>▸ Mae'r labordy Ffiseg bellach yn dechrau derbyn sylw ac yn debygol o fod wedi'i gwblhau cyn diwedd y tymor. | ***Building Work:*** *Much modernising and repair work is happening in the school.*<br>▸ *We are pleased to inform you that the Biology laboratory and the Music Room have been completed to a high standard.*<br>▸ *Safety bollards have been installed to help separate the pupils from the school buses.*<br>▸ *The Gym's changing rooms are also close to being completed, thanks to the Authority's investment. Likewise a new floor is almost complete in the Hall.*<br>▸ *Good progress has been made in improving the quality of the School's roof, walls and soffits to ensure that no water leaks into the building.*<br>▸ *The Physics laboratory is now starting to receive attention and is likely to be completed before the end of the term.* |
| **Concrid RAAC:** Mae'r Awdurdod wedi cynnal gwiriad ddesg o'r sefyllfa ac ni ragwelir bod concrid RAAC yn bresennol yn Ysgol Eifionydd. Yn naturiol byddwn yn eich diweddaru gydag unrhyw wybodaeth bellach os fydd yr angen yn codi. | ***RAAC concrete:*** *The Authority has carried out a desk top check of the situation and it is not anticipated that RAAC is present at Ysgol Eifionydd. Naturally we will update you with any further information should the need arise.* |
| **Yn gywir,**<br>**Dewi Rh Bowen** | ***Yours sincerely,***<br>***Dewi Rh Bowen*** |